

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran Cyllid a Chaffael
# Pennaeth Cyllid a Chaffael
## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr




# Croeso gan Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o rolau amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Mae ein hadran Gyllid a Chaffael yn swyddogaeth annatod o fewn y gwasanaeth tân ac achub, gan sicrhau gweithrediad effeithiol cyfrifon a gweithgareddau ariannol yr Awdurdod wrth ddarparu'r gwasanaeth brys. Mae'r adran yn gyfrifol am brosesu a thalu ein staff yn ogystal â phrosesu budd-daliadau a phensiynau gweithwyr, talu anfonebau cyflenwyr a delio ag ymholiadau cyflenwyr, casglu incwm, gweithrediad y prif Storfeydd, cynorthwyo i brynu nwyddau a gwasanaethau a chynhyrchu gwybodaeth statudol gan gynnwys y datganiad cyfrifon.

Mae rôl adran Gyllid a Chaffael o fewn gwasanaeth brys rheng flaen yn heriol, amrywiol a chyffrous ac yn cynnwys llawer o dasgau a chyfrifoldebau amrywiol, i sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i ddiogelu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydyn ni eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Ydy hyn yn swnio fel rhywbeth y gallech chi ei wneud? Rydym yn chwilio am Pennaeth Cyllid a Chaffael i ymuno â'n tîm a sicrhau ein bod yn parhau i lwyddo i gyflawni ein hamcanion.



# Pwy ydym ni

Pwrpas Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn, rydym yn cyflogi dros 900 o staff mewn rolau gweithredol a chefnogi.

Rydym yn helpu i ddiogelu ardal sy'n cwmpasu tua 2,400 milltir sgwâr a phoblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal â channoedd o filoedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydym yn mynd i tua 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau nad ydynt yn danau fel gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tân helaeth drwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb prysur yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.


Rhan arall o'n gwaith yw rôl gorfodi diogelwch tân, felly rydym yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am y safleoedd hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tân at y safon ofynnol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio ynddo. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i [wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru](#).



# Ein Gwerthoedd Craidd



# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.




# Y Rôl

Dyma gyfle cyffrous i Bennaeth Cyllid a Chaffael ymuno ag Adran Gyllid a Chaffael fach ond prysur. Mae'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn aelod o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac yn gyfrifol am ddarpariaeth strategol Swyddogaeth Gyllid y Gwasanaeth sy'n cynnwys y gyflogres, pensiynau a chaffael, gan gynnwys y Storfeydd.

Byddwch yn rhoi arweiniad wrth ddatblygu a chyflwyno strategaethau ariannol manwl a chynlluniau gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer cyllid, y gyflogres, pensiynau a chaffael. Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig gan gynnwys cyllidebau refeniw a chyfalaf manwl a strategaethau cysylltiedig. Yn ogystal, byddwch yn gyfrifol am gynhyrchu'r cyfrifon statudol a'r trefniadau archwilio allanol.  Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a gofynion adrodd allanol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys CThEF a Llywodraeth Cymru. Byddwch hefyd yn datblygu ac yn gweithredu trefniadau llywodraethu ariannol cadarn ar draws y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth ag arfer gorau.

Mae angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gyfrifydd CCAB cymwys â phrofiad helaeth a thystiolaeth o DPP. Bydd ymgeiswyr cymwys trwy brofiad yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd gennych brofiad o arwain, datblygu ac ysgogi tîm o staff. Bydd gennych sgiliau rhyngbersonol da ac, yn ddelfrydol, profiad o weithio'n adeiladol ar draws timau amlddisgyblaethol. Mae'r gallu i wylio'r gorwel a blaengynllunio, gallu gweithio i derfynau amser llym ac o dan bwysau, a bod â lefel uchel o uniondeb a disgresiwn proffesiynol yn hanfodol ar gyfer y rôl. Os ydych yn gallu eich ysgogi eich hun a gweithio ar eich menter eich hun, yn gallu blaenoriaethu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd a dirprwyo, yn gallu datblygu atebion ymarferol i broblemau wrth gydbwyso sawl mater a blaenoriaeth yn briodol ac yn gallu dangos sgiliau dadansoddi, trefnu a dogfennu cryf, yna rydym yn awyddus i glywed gennych. Bydd angen trwydded yrru gyfredol sy'n ddilys a'r gallu a'r parodrwydd i deithio o gwmpas ardal y Gwasanaeth a thu hwnt yn ôl yr angen.



# Beth allwn gynnig i chi

## Cyflog

Termau ac amodau'r Llyfr Glas

Cyflog: Yn dechrau ar £56,285-£60,368

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener.


## Lleoliad gwaith

Mae'r tîm wedi'u lleoli yn y Pencadlys yn Llanelwy.

Rydym hefyd yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer y rôl, a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod cyfweliad.

## Manteision y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 35 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fanteision ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| **Adran** | Cyllid a Chaffael |
| **Yn atebol i** | Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau |
| **Lleoliad** | Pencadlys y Gwasanaeth, Llanelwy |

## Overall Job Purpose

Mae'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn aelod o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac yn gyfrifol am ddarpariaeth strategol Swyddogaeth Gyllid y Gwasanaeth sy'n cynnwys y gyflogres, pensiynau a chaffael, gan gynnwys y Storfeydd. Diben y swydd yn gyffredinol yw rhoi cyfeiriad strategol a chefnogaeth i'r Gwasanaeth ac arwain a rheoli'r adran yn effeithiol er mwyn cyflawni ei hamcanion:

- Darparu cefnogaeth swyddog arweiniol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Pensiwn Lleol.  Cadeirio Pwyllgor Monitro Cyllideb a Chaffael mewnol y Gwasanaeth.
- Datblygu'r strategaethau ariannol manwl a chynlluniau gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer cyllid, y gyflogres, pensiynau a chaffael;
- Datblygu'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig gan gynnwys cyllidebau refeniw a chyfalaf manwl a strategaethau cysylltiedig
- Yn gyfrifol am gynhyrchu'r cyfrifon statudol a'r trefniadau archwilio allanol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a gofynion adrodd allanol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys CThEF a Llywodraeth Cymru
- Datblygu a gweithredu trefniadau llywodraethu ariannol cadarn ar draws y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth ag arfer gorau
- Hyrwyddo a chefnogi gwella gwasanaethau ym mhob rhan o'r Gwasanaeth

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cynorthwyo'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael yn y broses o bennu'r gyllideb a pharatoi cyllidebau manwl. Rhoi gwybod i'r Rheolwyr Cyllideb am y cyllidebau manwl a rhoi'r cyllidebau ar y system ariannol.
2. Rhoi cyngor i'r Awdurdod ar newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth a chodau ymarfer, gan sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cyllid yn gyfredol ac yn cael eu dilyn.
3. Gweithredu fel y swyddog arweiniol wrth baratoi'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.
4. Gweithredu fel y swyddog arweiniol wrth baratoi ac archwilio'r datganiad cyfrifon blynyddol i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.
5. Cyfrannu at ddatblygu amcanion corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth trwy weithio fel aelod o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

6. Casglu ac adrodd am berfformiad ariannol y Gwasanaeth ar gyfer adroddiadau mewnol ac allanol gan gynnwys ymateb i geisiadau gan archwilwyr allanol, CThEF, asiantaethau partner a Llywodraeth Cymru.

7. Swyddog arweiniol y Gwasanaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys; sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cod, gweithredu fel cyswllt rhwng y Gwasanaeth a chynghorwyr allanol y trysorlys, gweithredu Arferion Rheoli'r Trysorlys, adrodd ar y dangosyddion perfformiad statudol a chynhyrchu Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Gyfalaf yn flynyddol

8. Rheoli'r trefniadau monitro cyllideb fewnol fisol a chwarterol a chysylltu â rheolwyr cyllideb i gytuno ar unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i fynd i'r afael ag amrywiannau

9. Yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau cyllid. Sicrhau bod yr holl drafodion ariannol gan gynnwys rheoli'r trysorlys, cyfrifon taladwy, cyfrifon derbyniadwy, TAW a rheoli arian parod yn cael eu cofnodi'n gywir.

10. Yn gyfrifol am reoli'r system ariannol gyfrifiadurol er mwyn sicrhau bod diweddariadau'n cael eu cwblhau, yn unol â'r contract a bod y gweithlif yn adlewyrchu'r Cynllun Dirprwyo Ariannol

11. Rheoli'r gwaith o ddarparu a chynnal gwasanaethau cyflogres y Gwasanaeth. Cyfrifoldeb am sicrhau bod cyflogau'n cael eu talu'n brydlon, yn gywir ac yn unol ag Amodau Gwasanaeth.

12. Swyddog arweiniol Caffael y Gwasanaeth; sicrhau bod polisïau mewnol yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael y sector cyhoeddus, rhoi arweiniad i bersonél ar draws y Gwasanaeth, a gweithredu fel cyswllt rhwng y Gwasanaeth a'r ymgynghorwyr caffael allanol a chynnal cofrestr contractau corfforaethol.

13. Arwain, rheoli a hyfforddi'r Adran Gyllid a Chaffael ac Aelodau o'r Awdurdod Tân, gan sicrhau bod unigolion yn wybodus, yn llawn cymhelliant ac yn gweithredu'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau ariannol a gwasanaethau cysylltiedig o safon uchel.

14. Ceisio gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adran yn barhaus trwy ddatblygu systemau a phrosesau sy'n well ac yn fwy effeithiol

15. Cyfrifoldeb am roi trefniadau Rheoli Parhad Busnes yr adran ar waith, gan sicrhau bod gweithgareddau hanfodol yn cael eu cyflawni yn ystod digwyddiad tarfol a bod swyddogaethau arferol yr adran yn cael eu hadfer cyn gynted â phosibl.

16. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol/eraill yn ôl yr angen er mwyn diwallu anghenion y Gwasanaeth.

## Cyfrifoldeb goruchwylio

Dirprwy Bennaeth Cyllid a Rheolwr Caffael

Rheolwr Cyflogau

Rheolwr Contractau a Chaffael

## Cyfrifoldeb ariannol

Swyddog arweiniol ar gyfer datblygu, monitro ac adrodd ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol.

## Cysylltiadau y tu allan i'w hadran eu hunain

- Prif Swyddogion
- Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth
- Rheolwyr Cyllideb
- Aelodau'r Awdurdod Tân

- Llywodraeth Cymru
- Gwasanaethau brys eraill
- Awdurdodau Lleol
- Ymgynghorwyr Llywodraeth Leol
- Ymgynghorwyr cyfreithiol (ymholiadau cyllid a phensiwn)
- CThEF
- Yswirwyr

## Gofynion iaith

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar Lefel 3 yn gofyn y gallwch chi:

Ddeall hanfod sgyrsiau yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio.

## Camau Gwirio Cyn Cyflogi / Gofynion Penodol

DBS Arferol

## Arall

Y gallu i yrru



# Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Cyfrifydd CCAB cymwys â phrofiad helaeth a thystiolaeth o DPP. Bydd ymgeiswyr cymwys trwy brofiad yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau eithriadol. |
| | Profiad o arwain, datblygu ac ysgogi tîm o staff. |
| | Sgiliau rhyngbersonol da gyda phrofiad o weithio'n effeithiol mewn timau amlddisgyblaethol |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Profiad o arwain rhaglenni newid |
| | Gwybodaeth am drefn gyfrifyddu Llywodraeth Leol neu brofiad cyfatebol yn y sector cyhoeddus |
| | Gwybodaeth am ddeddfwriaeth cyflog a phensiynau a phrofiad o hynny |
| | Gwybodaeth am gaffael yn y sector cyhoeddus a phrofiad o hynny |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Yn drefnus a'r gallu i wylio'r gorwel a blaengynllunio |
| | Rhaid gallu gweithio i derfynau amser llym ac o dan bwysau |
| | Lefel uchel o uniondeb a disgresiwn proffesiynol |
| | Yn hunangymhellol ac yn gweithio ar eich menter eich hun |
| | Yn gallu blaenoriaethu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd a dirprwyo |
| | Y gallu i ddatblygu atebion ymarferol i broblemau gan gydbwyso sawl mater a blaenoriaeth yn briodol |
| | Yn gallu dangos sgiliau dadansoddi, trefnu a dogfennu cryf |
| | Sgiliau TGCh da |
| | Meddu ar drwydded yrru gyfredol lawn a'r gallu i deithio ar draws gogledd Cymru i wneud gwaith (e.e. mynychu cyfarfodydd/ymweld â staff neu leoliadau eraill) |

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a'i dilysu cyn cadarnhau'r penodiad

Sylwch: Er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal ac ymfalchïwn ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd lawer. Wrth gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r Gwasanaeth yn sgil cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae arbed bywydau a lleihau risg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant ein cenhadaeth.

Gan eich bod yn sefydliad dwyieithog ac ar gyfer y rôl hon, bydd angen i chi ddangos sgiliau Cymraeg llafar lefel 3, sy'n golygu eich bod yn gallu deall brawddegau a'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa neu gyfarfod ac ymdopi â sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sgiliau gofynnol ar gyfer lefel 3.

| Maes Sgiliau | Gofynion Safonau'r Gymraeg |
|---|---|
| **Siarad / Gwrando** | ▪ Deall y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod, ac ati ac ymdopi â sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ond dychwelyd at y Saesneg i drafod/adrodd ar wybodaeth fwy cymhleth neu dechnegol.<br>▪ Ateb cwestiynau ffeithiol neu rai y gellir eu rhag-weld.<br>▪ Derbyn a throsglwyddo y rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw.<br>▪ Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n gysylltiedig â'r swydd |

Bydd ymgeiswyr allanol nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg hyd at lefel 3 yn cael 2 flynedd o adeg eu penodi i'r rôl i gyflawni hyn.

I ymgeiswyr sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y Gymraeg, bydd cymorth yn cael ei ddarparu i'w helpu i gyflawni Cymraeg llafar lefel 2 yn gyntaf, cyn symud ymlaen i gyflawni lefel 3. Ceir amlinelliad isod o ofynion lefel 2.

| Maes Sgiliau | Gofynion Safonau'r Gymraeg |
|---|---|
| **Siarad / Gwrando** | ▪ Gallu deall hanfod sgyrsiau sylfaenol neu frawddegau yn y gwaith.<br>▪ Gallu ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol.<br>▪ Gallu gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml.<br>▪ Gallu mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd.<br>▪ Gallu deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio. |

Rydyn ni'n cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad a bod y gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd. Mae cymorth ar gael ar sawl ffurf wahanol i'ch helpu i lwyddo, gan gynnwys gweithdai a chyrsiau hyfforddi ffurfiol, mentora un i un, cefnogaeth anffurfiol gan hyrwyddwyr y Gymraeg ar draws y Gwasanaeth, sloganau bachog a llyfrynnau gwaith.



# Sut i Wneud Cais

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth recriwtio fel eich bod yn deall y rol a'r gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rol. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, cysylltwch â Helen MacArthur drwy'r Cynorthwywyr Gweithredol ar executiveassistants@northwalesfire.gov.wales

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Fire and Rescue Service**